# Marchogaeth ceffylau wedi eu disgyblu

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn cynnwys marchogaeth ceffylau wedi eu disgyblu. Bydd hyn yn cynnwys y cyfarwyddiadau penodol canlynol ar gyfer disgyblu sylfaenol wrth gerdded, trotian a hanner carlamu. Dylech allu ymarfer ceffylau gyda gwartholion a hebddynt, yn unigol ac mewn grŵp.

Byddai'r gwaith a ddisgrifir yn y safon hon yn cael ei wneud yn dilyn cytundeb gyda goruchwylydd am gyfrifoldebau a dulliau gweithio.

Bydd angen i chi fod yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd iechyd, diogelwch a lles anifeiliaid mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn.

Bydd angen i chi allu adnabod peryglon yn y gweithle.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. dewis a gwisgo'r dillad a'r offer amddiffynnol personol priodol ar gyfer y gweithgaredd, yn unol â'r cyfarwyddiadau
2. gwirio ac addasu harneisiau fel ei fod yn addas ar gyfer marchogaeth y ceffyl wedi ei ddisgyblu
3. mynd ar gefn ac oddi ar gefn y ceffyl wedi ei ddisgyblu yn ddiogel a heb gymorth
4. mabwysiadu safle marchogaeth cytbwys nad yw'n niweidiol i'r ceffyl wedi ei ddisgyblu
5. cynhesu'r ceffyl er mwyn paratoi ar gyfer y symudiadau
6. marchogaeth y ceffyl wedi ei ddisgyblu mewn ffordd wedi ei rheoleiddio sydd yn addas ar gyfer yr ardal waith a'r amodau, yn cynnwys y gallu i gynnal rhythm, ystwythder a chyswllt
7. gwneud symudiadau yn ddiogel, yn unol â'r cyfarwyddiadau
8. tawelu'r ceffyl yn briodol ar ôl symudiadau
9. cynnal eich iechyd a'ch diogelwch chi ac eraill, a lles y ceffyl, yn ystod y gweithgaredd

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i ddewis, defnyddio a gofalu am offer amddiffynnol personol
2. effeithiau marchogaeth mewn grwpiau neu'n unigol ar ymddygiad ceffyl
3. y rhesymau dros fabwysiadu safle marchogaeth cytbwys
4. pam y mae'n bwysig gwirio harneisiau ac addasu cenglau a gwartholion
5. y peryglon yr ydych yn debygol o ddod ar eu traws wrth farchogaeth a'r camau i'w cymryd mewn ymateb i'r rhain
6. egwyddorion marchogaeth ceffyl wedi ei ddisgyblu a'r cymhorthion ar gyfer ymarferion syml
7. pwysigrwydd cynhesu a thawelu'r ceffyl yn briodol
8. y peryglon i geffylau, i chi ac i eraill a sut y gellir lleihau'r rhain
9. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer iechyd a lles anifeiliaid ac iechyd a diogelwch perthnasol

## Cwmpas/Ystod

Marchogaeth isafswm o ddau geffyl.

Mynd ar gefn ceffyl:

- gyda chymorth
- heb gymorth

Marchogaeth:

- gyda gwartholion
- heb wartholion
- yn unigol
- mewn grwpiau
- gyda'r awenau mewn un llaw

Cyflawni symudiadau:

- cerdded
- trotian ar y groeslin gywir
- hanner carlamu ar y tennyn cywir
- symudiadau disgyblu syml
- aros

## Geirfa

Peryglon:

- arwynebeddau anffafriol
- ceffylau eraill
- pobl eraill
- tywydd anffafriol

Harneisiau:

- cyfrwy
- cengl
- ffrwyn enafog
- gwartholion

Rhythm:

- rheoleidd-dra'r camau wrth gerdded
- trotian
- carlamu

Ystwythder:

- mae'r ceffyl yn rhydd rhag tensiwn ac ymwrthedd i gymhorthion

Cyswllt:

- cyswllt meddal, cyson rhwng y llaw a'r geg, wedi ei gyflawni wrth farchogaeth ymlaen o'r goes i'r llaw, (mae cyswllt gwirioneddol yn cael ei sefydlu o weithgaredd coesau ôl y ceffyl)

Marchogaeth ceffylau wedi eu disgyblu

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANEq217 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cynorthwyydd Ceffylau |
| **Cyfres/Set** | Ceffylau |
| **Geiriau Allweddol** | ceffylau; ceffyl; marchogaeth; trotian; hanner carlamu; gwartholion; harneisiau |